Down to Earth
CREATING A BETTER WORLD TOGETHER

# Rydym ni'n chwilio am Brif Hwyluswyr Grŵp

Cyflog: £23,00 - £27,000
Yn dibynnu ar brofiad a chymwysterau
Oriau'r wythnos: 37.5
Yn atebol i: Rheolwr Prosiect

## Ymunwch â thîm sy'n creu byd gwell!

Mae Down to Earth yn grŵp arobryn o fentrau cymdeithasol sy'n seiliedig ar benrhyn Gŵyr, Abertawe.
Ers 2005 rydym ni wedi bod yn cynnig profiadau sy'n newid bywydau i rai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru drwy greu adeiladau trawiadol a mannau awyr agored gyda deunyddiau naturiol a thechnolegau adnewyddadwy.
Trwy greu'r cyfleusterau ysbrydoledig hyn gyda'n grwpiau, rydym ni'n darparu gofal iechyd ac addysg mewn ffyrdd newydd sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol - gan ddangos hefyd sut mae'n bosibl creu byd gwell: un sy'n dda i bobl ac yn dda i'r blaned.

## Am bwy ydym ni'n chwilio?

Wrth i ni dyfu, rydym ni'n chwilio am ymarferwyr awyr agored talentog ac ymroddedig sy'n gwybod sut y gellir defnyddio'r awyr agored i greu byd gwell i bobl a natur.
Mae ein Prif Hwyluswyr Grŵp yn dod o amrywiaeth o ddisgyblaethau: o reoli tir i weithgareddau antur, addysgu hyd at chwarae, adeiladu i waith cymdeithasol – ymhlith llawer o rai eraill!
Rydym ni'n arbenigo mewn gweithio gyda phobl ifanc ac oedolion sydd o gefndiroedd "difreintiedig" neu "fregus" - felly rydym ni chwilio am bobl sydd â phrofiad o weithio gyda'r grwpiau hynny, yn benodol.

## Bod yn Rhan o'r Newid

Fel menter gymdeithasol, rydym ni'n gweithredu ar fodel dosbarthu dielw ond yn ymdrechu i wneud elw i hyrwyddo ein heffaith.
Bydd y rôl yn addas i rywun sy'n ffynnu ar sut y gallwn ni leihau ein heffaith ar y blaned, tra hefyd yn newid bywydau.
Rydym ni'n dîm gweithgar sy'n credu mewn creu'r newid yr ydym ni am ei weld. Mae hon yn rôl i unigolion brwdfrydig ac uchelgeisiol sy'n awyddus i ymuno â Thîm sy'n ceisio gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

## Beth mae'r rôl yn ei gynnwys?

Mae rôl "Prif Hwyluswyr Grŵp" yn gwneud hynny'n union – y person sy'n gyfrifol am hwyluso gweithgareddau gyda'n grwpiau. Gan weithio fel rhan o dîm ehangach, mae'r rôl hon yn ymwneud â darparu rhaglenni awyr agored sy'n newid bywydau. O sicrhau bod ein dull cynhwysol sy'n canolbwyntio ar berthynas yn cael ei ymgorffori ym mhob gweithgaredd hyd at gwblhau gwaith papur achredu a monitro, mae hon yn rôl amrywiol sydd wedi'i lleoli yn yr awyr agored yn bennaf ac sy'n cynnwys cynnal gweithgareddau ymarferol gyda llawer o wahanol fathau o grwpiau.

## Oriau a lleoliad gwaith

Rydym ni'n chwilio ar gyfer swyddi gyda sylfaen waith yn Rhondda Cynon Taf yn ogystal â swyddi gyda sylfaen waith yn Abertawe. Mae'r rôl hon yn cynnwys gweithio yn yr awyr agored gyda grwpiau, wyneb yn wyneb, am hyd at 5 diwrnod yr wythnos. Efallai y bydd y rôl hefyd yn gofyn am fod wedi eich lleoli mewn lleoliadau eraill ar draws de Cymru. O'r herwydd, bydd y rôl yn gofyn am fynediad i gerbyd.
Rydym ni'n disgwyl i'r rhan fwyaf o'r oriau fod o ddydd Llun i ddydd Gwener. Efallai y bydd y rôl hefyd yn gofyn am waith achlysurol ar benwythnosau y gellir ei weithio'n hyblyg.
Oherwydd natur y rôl hon, ni allwn gynnig gweithio gartref.

## Cyflog

£23,000 i £27,000 yn dibynnu ar brofiad a chymwysterau.
Mae hyn yn seiliedig ar 37.5 awr yr wythnos.

## Buddion ac amgylchedd gwaith

- Cael effaith gadarnhaol ar bobl a'r blaned
- Cyfraniadau pensiwn
- Hyfforddiant helaeth a datblygiad tîm, gan gynnwys diwrnodau i ffwrdd blynyddol gyda'r tîm
- Gwyliau blynyddol hael a gwobrau ymrwymiad hirdymor
- Mynediad am ddim i'n safleoedd trawiadol ar gyfer digwyddiadau personol
- Gwefru EV â chymhorthdal

## Cyfrifoldebau

- Datblygu a darparu rhaglenni mewn gweithgareddau awyr agored ystyrlon (gan gynnwys adeiladu cynaliadwy a rheoli coetiroedd*) sydd wedi'u cynllunio i newid bywydau
- Cefnogi ac ymgysylltu â chyfranogwyr mewn rhaglenni i fodloni canlyniadau iechyd a chanlyniadau addysgol.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Down to Earth
- Cwblhau asesiadau risg a dogfennau iechyd a diogelwch eraill sy'n ymwneud â chyfranogwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni
- Recriwtio grwpiau o asiantaethau atgyfeirio a pharhau i gysylltu ag asiantaethau atgyfeirio i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu darparu'n effeithiol

Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Prosiect a'r tîm ehangach i sicrhau rhaglenni gwaith diogel a phriodol i gyfranogwyr

- Cyd-arwain rhaglenni a/neu reoli Gweithwyr Cymorth wrth ddarparu rhaglenni
- Sicrhau cyflawniad achredu a chyflawniad canlyniadau eraill gan gyfranogwyr
- Yr holl waith papur achredu a gwaith papur y rhaglen
- Goruchwylio a chefnogi gwirfoddolwyr.
  - Gweithio gyda'r Gweinyddwr i sicrhau bod cyfranogwyr yn cael eu holrhain a'u gwerthuso'n barhaus.
  - Sefydlu a gosod y safle, gan gynnwys glanhau
  - Dyletswyddau gweinyddol cyffredinol fel bo'r angen.

*Byddwn yn darparu hyfforddiant ychwanegol, fel bo'r angen.

## Manyleb y Person

Profiad a Sgiliau Hanfodol

- O leiaf 2 flynedd o brofiad o weithio gyda grwpiau o gefndiroedd difreintiedig/agored i niwed
- O leiaf 2 flynedd o wneud gweithgareddau awyr agored gyda grwpiau
- Cymhwyster ymarferydd awyr agored fel:
- o WIN, Arweinydd Ysgol Goedwig, BELA, ML ac ati.
- o cyfwerth ar gyfer rheoli tir
- o cyfwerth ar gyfer adeiladu cynaliadwy
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol ardderchog
- Ymwybyddiaeth gref o ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a'r gallu i weithio i asesiadau risg
- Agwedd hyblyg ac ymatebol tuag at waith
- Y gallu i ddatrys problemau
- Yn hapus ac yn gallu gweithio tu allan ym mhob tywydd
- Llythrennedd cyfrifiadurol da – y gallu i ddefnyddio meddalwedd sylfaenol fel Office 365/Outlook ac ati.
- Trwydded yrru lawn.

Profiad a Sgiliau Dymunol

- Profiad o'r sector iechyd
- Diddordeb a/neu brofiad mewn adeiladu cynaliadwy
- Diddordeb a/neu brofiad mewn rheoli coetiroedd
- Cymhwyster addysgu (L3 EAT o leiaf - PTLLS gynt)
- Gallu Cymraeg

## Oes gennych chi ddiddordeb?

Ewch i'n gwefan i gael gwybod mwy am ein gwaith a lawrlwytho ffurflen gais.
Gwneud cais i: jobs@downtoearthproject.org.uk

Cyflwyno: Ffurflen gais a CV cyfredol

Dyddiad Cau: Dydd Iau 20 Gorffennaf 2023 (erbyn 9pm)
Byddwn yn cyfweld ddydd Gwener 28 Gorffennaf 2023 ar ein safle Murton, Abertawe (SA3 3AP)
Mae'r swydd yn dechrau ddydd Mawrth 29 Awst 2023.

Bydd y 5 diwrnod cyntaf (dydd Mawrth i ddydd Sadwrn) yn mynychu ein cwrs Agored Cymru Lefel 3 Lles mewn Natur. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i ariannu'n llawn ac mae'n rhan hanfodol o'ch hyfforddiant ymsefydlu.

downtoearthproject.org.uk
01792 232 439
@DTEProject